***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 3226 (Cy.306)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *23 Rhagfyr 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *24 Rhagfyr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi ei ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Teitl, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002; maent yn gymwys i Gymru, a deuant i rym ar 24 Rhagfyr 2002.

### Diwygio Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998(**3**) fel y maent yn gymwys i Gymru yn unol â pharagraff (2) isod.

(2) Yn yr Atodlen, yn y golofn â'r pennawd "*Instrument*", ar ôl "Commission Decision 2001/664/EC", ychwanegir "Commission Decision 2002/903/EC"(**4**)), ac yn y golofn â'r pennawd "*Reference*", ar ôl "OJ No. L233, 31.8.01, p. 49", ychwanegir "OJ No. L312, 15.11.02, p. 28".

(**1**) O.S. 1999/2788.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 1998/201, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/3167, O.S. 2000/350 (Cy.8), O.S. 2001/2356 (Cy.194) ac O.S. 2002/120 (Cy.14).
(**4**) OJ Rhif L312, 15.11.02, t. 28.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*Rhodri Morgan*

23 Rhagfyr 2002

Prif Weinidog Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu yng Nghymru Penderfyniad y Comisiwn 2002/903/EC (OJ Rhif L312, 15.11.02, t. 28) sy'n diwygio Penderfyniad y Comisiwn 96/301/EC ("y prif Benderfyniad") (OJ Rhif L115, 9.5.1996, t.47) sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau, dros dro, i gymryd camau brys yn erbyn lledaenu *Pseudomonas solanacearum* (Smith) Smith mewn cysylltiad â'r Aifft. Maent yn gwneud hynny drwy ychwanegu Penderfyniad y Comisiwn 2002/903/EC at y rhestr o offerynnau sy'n diwygio'r prif Benderfyniad sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodlen i Reoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft 1998 (OS 1998/201) (rheoliad 2). Mae penderfyniad 2002/903/EC yn adnewyddu'r gyfundrefn y gellir mewnforio tatws o dani i diriogaeth y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer tymor 2002/2003.

Cyfeirir bellach at *Pseudomonas solanacearum* (Smith) Smith fel *Ralstonia solanacearum* Smith (Yabuuchi) et al. (gweler Cyfarwyddeb y Cyngor 98/57/EC (OJ Rhif L235, 21.9.1998)).

Nid yw Arfarniad Rheoliadol wedi ei wneud ynglŷn ag ymestyn y rheolaethau hyn i dymor 2002/2003.